

GWOBR DYNGARWCH ACHATES 2020:

**YR HYN A FYDD I'W WELD YN YR ARDDANGOSFA GENEDLAETHOL:
20 STORIES HIGH, CRAFTSPACE, RIFCO THEATRE COMPANY,
ROYAL ALBERT MEMORIAL MUSEUM & ART GALLERY, SCOTTISH BALLETT,
STAGE BEYOND, THEATR CLWYD, A THEATRE CENTRE & THEATRE503**

**DYFARNWYD BWRARIAETHAU I'R CANLYNOL: ECHO ECHO DANCE THEATRE
COMPANY, FEAST, FERMYNWOODS CONTEMPORARY ART, HOSPITALFIELD
TRUST, ISLINGTON MILL, MOSTYN, MUSEUM OF THE HOME, A PEOPLE UNITED**

Dydd Gwener 13 Tachwedd 2020: Mae'n bleser gan Wobr Dyngarwch Achates, yr ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo cefnogaeth i'r celfyddydau, gyhoeddi bod wyth sefydliad diwylliannol wedi'u dewis ar gyfer ei Arddangosfa Genedlaethol. Sef: 20 Stories High, Craftspace, Rifco Theatre Company, Royal Albert Memorial Museum & Art Gallery (RAMM), Scottish Ballet, Stage Beyond, Theatr Clwyd, a Theatre Centre & Theatre503. Wedi'i guradu gan Feirniaid y flwyddyn hon, cyhoeddwyd yr Arddangosfa Genedlaethol neithiwr mewn seremoni arbennig Gwobr Achates a gynhaliwyd gan y bardd, cynhyrchydd a libretydd, Karthika Naïr a'i gyflwyno ar-lein mewn partneriaeth â HOME, Manceinion.

Dywedodd **Cadeirydd Sefydliad Dyngarwch Achates, Caroline McCormick:** *"Mae'r Arddangosfa Genedlaethol yn nodi sut mae sefydliadau celfyddydol ledled y DU, ar adeg dywyll, wedi ymateb i'r her ac wedi ymateb i flaenoriaethau eu cymunedau. Mae'n tanlinellu'r nifer o ffyrdd y mae sefydliadau celfyddydol yn cael effaith, p'un ai ar iechyd meddwl neu gorfforol, mewn adeiladu cymunedol, addysg, arloesi, datblygu artistig neu werth economaidd. Gobeithiwn y bydd yn ysbrydoli ac yn llywio'r gwaith a gyflawnir o dan don nesaf y pandemig a thu hwnt."*

Bum mlynedd ers iddi lansio gyntaf, mae Gwobr Dyngarwch Achates wedi cael ei hail-ddychmygu i adlewyrchu rhai o'r sifftiau seismig sydd wedi diffinio 2020, gan gychwyn gyda chael gwared ar elfen gystadleuol y Wobr. Gan gynnal y farn bod dyngarwch yn faromedr o berthnasoedd â chynulleidfaoedd, roedd y Wobr yn ganolog o ran archwilio sut mae sefydliadau diwylliannol ledled y wlad wedi ymateb i anghenion eu cymunedau yn ystod y pandemig, er gwaethaf eu bod dan fygythiad eu hunain, a sut mae eu cymunedau wedi ymateb i'r gwaith hwn.

Penodwyd wyth Llysgennad Gwobr Ranbarthol i ymchwilio a datblygu pymtheg astudiaeth achos o Ogledd Iwerddon, yr Alban, Cymru a phob un o'r pum rhanbarth ACE yn Lloegr (Llundain, Canolbarth Lloegr, Gogledd Lloegr, De Ddwyrain Lloegr a De Orllewin Lloegr) i gynhyrchu rhestr hir o 120 o enwebiadau, y dewiswyd Arddangosfa Ranbarthol o 24 sefydliad diwylliannol ohoni - tri fesul rhanbarth.

Yna dewisodd panel o 19 o Feirniaid* wyth o'r rhestr hon i guradu Arddangosfa Genedlaethol yn dathlu'r nifer o ffyrdd y mae celf yn cynhyrchu gwerth - gan edrych y tu hwnt i werth economaidd yn unig i gwmpasu gwerth cynhenid, gyda buddion profedig i iechyd meddwl, iechyd corfforol a lles cymdeithasol, adeiladu cymunedol, gwerth addysgol ac arloesedd.

Yr Arddangosfa Genedlaethol ar gyfer Gwobr Dyngarwch Achates 2020 yw:

Theatre Centre & Theatre503 (Llundain)

Comisiynodd ImagiNation Festival, cydweithrediad rhwng Theatre Center a Theatre503, 19 o awduron mwyaf gwefreiddiol y DU i greu clytwaith digidol o'r genedl trwy ddramâu byrion yn archwilio themâu cyfoes brys. Yna cafwyd galwad agored ledled y wlad yn gwahodd y cyhoedd i recordio un neu ran o un o'r dramâu, gyda chefnogaeth fideos 'Sut i ...' ar actio, ffilmio a chyfarwyddo. Bu dros 500 o bobl gymryd rhan, gan gyflwyno mwy na 18 awr o ffilm, a gafodd eu torri gyda'i gilydd a'u harddangos yn yr Ŵyl dridiau a oedd yn cynnwys pob un o'r 19 drama ynghyd â sesiynau Holi ac Ateb byw gyda'r dramodwyr.

Craftspace (Canolbarth Lloegr)

Wedi'i leoli yn Birmingham, mae Craftspace yn elusen sy'n creu cyfleoedd i weld, gwneud a bod yn chwilfrydig am grefft gyfoes eithriadol. Wedi'i enwebu am ehangder y gwaith a wnaed ers mis Mawrth ochr yn ochr â'i benderfyniad i anrhydeddu comisiynau ac ymrwymadau ariannol sydd eisoes yn bodoli i artistiaid a gweithwyr llawrydd. Un enghraifft nodedig yw'r artist, Alinah Azadeh, y cafodd ei chyfnod preswyl ei ail-ddychmygu fel adnodd ar-lein o bum gweithdy creadigol sy'n canolbwyntio ar wneud pethau i oroesi cyfnodau anodd, gyda thema pob gweithdy yn ymwneud â gwerth neu brofiad penodol fel dewrder, gofal, cysylltiad, colled ac atgyweirio emosiynol.

20 Stories High (Gogledd Lloegr)

Pan leddfu cyfyngiadau ar berfformiadau awyr agored, aeth 20 Stories High i strydoedd Lerpwl - Toxteth a L8 yn bennaf - gyda darn unigryw o theatr stepen drws rhyngweithiol. Mae Knocking On yn adlewyrchiad difyr ac ingol ar gyfnod y cyfyngiadau symud trwy lygaid merch ifanc o Lerpwl. Perfformiad wedi'i sgriptio'n rhannol, rhyngweithio rhannol fyrfyr, mae'n dibynnu'n fawr ar gyfranogiad y gynulleidfa, gydag un mynychwr yn nodi: *"mae'n helpu bod hwn yn digwydd yn Lerpwl, lle mae dieithriaid wedi arfer cyfnewid straeon bywyd yn yr arhosfan bysiau"*. Bu'r perfformiad redeg am chwe wythnos ac mae wedi bod yn ysbrydoliaeth i greu nifer o raglenni pwrpasol a fydd yn cael eu lansio'n fuan i dynnu sylw at faterion iechyd meddwl yn y gymuned leol.

Stage Beyond (Gogledd Iwerddon)

Oherwydd cyfnod y cyfyngiadau symud roedd rhaid i Stage Beyond ail-ddychmygu eu rhaglen gweithdy wythnosol yn gyflym a'u cynhyrchiad o Hamlet sydd ar ddod. Symudodd gweithdai ar gyfer eu 40 aelod - oedolion ag anawsterau dysgu, yn enwedig mewn perygl o ynysu cymdeithasol oherwydd caethiwed y cyfyngiadau symud - ar-lein, a gyda'i gilydd fe addason nhw'r ddrama lwyfan yn gynhyrchiad radio, Stage Beyond "Hamlet" ar gyfer RTE Radio One. Fe ddywedodd yr Irish Independent ei fod yn *"waith o'r radd flaenaf gydag egni theatrig deallusol sy'n glyfar, yn wreiddiol ac yn hollol heintus"*, ac mae cydweithrediadau yn y dyfodol tebyg yn cael eu hystyried.

Scottish Ballet (Yr Alban)

Gan barhau â gwaith Scottish Ballet gyda GIG yr Alban, mae Health at Hand yn gyfres o fideos symud ac anadl pwrpasol i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol i bobl sy'n gweithio yn y GIG a gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Wedi'i lansio ar ddechrau mis Mai, mae'r rhaglen yn cynnwys fideos byr 10 munud megis triptych o'r enw Energize, Rejuvenate and Relax, ochr yn ochr â sesiynau Adfer 20 munud hirach sy'n cynnig cefnogaeth ar ôl cyfnodau o drawma corfforol ac emosiynol. Mae Health at Hand wedi cael ei wlyio dros 12,000 gwaith dros y pedwar mis diwethaf; cafodd ei gyflwyno trwy Hyrwyddwyr Lles y GIG ledled yr Alban a'i blatfform Hwb Llesiant cysylltiedig yn ogystal ag ar wefan Clear your Head Llywodraeth yr Alban.

Mae'r prosiect hefyd wedi helpu Scottish Ballet i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd - roedd llawer o'r cyfranogwyr erioed wedi ymgysylltu â gwaith y cwmni o'r blaen.

Rifco Theatre Company (De Ddwyrain Lloegr)

Ganwyd y gyfres Desi Lockdown o linyr comisiynu galwadau agored i artistiaid De Asiaidd Prydain greu ffilm dwy funud am eu profiadau o gyfnod y cyfyngiadau symud. Dewiswyd pump o 40 cais i fynd i'r rownd derfynol, ac fe gwblhawyd y sgriptio, ffilmio, golygu ynghyd â lansio Desi Lockdown mewn chwe wythnos yn unig. Mae pob ffilm yn y gyfres yn archwilio agwedd wahanol ar y profiad pandemig - o nodweddion penodol y cyfyngiadau symud ar aelwyd sy'n pontio cenedlaethau, i'r heriau o efelychu hoff bryd cartref eich mam - trwy ddrama, comedi a chreadigaethau gair llafar. Denodd y cynnig digidol fwy na 5000 o ddilynwyr ar Facebook, ac mae bron i 6000 o bobl wedi gwyllo'r ffilmiau.

Royal Albert Memorial Museum & Art Gallery (RAMM) (De Orllewin Lloegr)

"A welsoch chi unrhyw un o'r 'amgueddfeydd sil ffenest' anhygoel hynny a ymddangosodd ar hyd a lled Caerwysg yn ystod Covid?". Os felly, RAMM at Home oedd hwnnw, cyfres her artistig deuddeg wythnos a wahoddod y cyhoedd i greu eu hamgueddfa fach eu hunain, yn seiliedig ar gasgliad syfrdanol RAMM. Gosodwyd her newydd sbon bob dydd Gwener megis sut i dynnu llun o Gerald, jiraff preswyl RAMM; sut i wneud Canwriad Rhufeinig o frws paent; a sut i baentio cnocell y coed ar graig. Gwylodd mwy na 1000 o bobl y ffilmiau YouTube, gyda 1700 o bobl eraill yn ymgysylltu trwy wefan yr Amgueddfa. Dosbarthwyd 500 o becynnau i'r rheini nad sy'n gallu cael gafael ar adnoddau creadigol ar-lein mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gymunedol Dinas Caerwysg a Hwb Lles Cymunedol Caerwysg.

Theatr Clwyd (Cymru)

Roedd Ynghyd yn rhaglen creadigol uchelgeisiol, a grëwyd mewn ymateb i'r pandemig, i annog a hwyluso creadigrwydd ymhlith cynulleidfaoedd Theatr Clwyd ac yn eu cymunedau. Parhaodd y theatr i gyflwyno eu gweithdai ar-lein gan gyrraedd hyd at 1000 o bobl bob wythnos, rhwng 5 ac 84 oed, mewn rhaglen amlddisgyblaethol a oedd yn rhoi pwyslais ar gymdeithasu, rhannu teimladau, creadigrwydd a hwyll! Ffynnodd mentrau newydd hefyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, gan gynnwys partneriaeth newydd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a welodd Theatr Clwyd yn cyflwyno pecynnau creadigol i bobl ifanc mewn cartrefi a oedd yn derbyn pecynnau bwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Roedd y 'bocsys enfys' hyn yn llawn danteithion creadigol o hadau a phensiliau lliwio i gemau a danteithion melys. Gofynnodd y theatr i'r gymuned helpu i gefnogi'r fenter hon a gyda'i gilydd sicrhawyd bod mwy na 200 o focs y enfys yn cyrraedd teuluoedd ledled Sir y Fflint.

Cyhoeddwyd **wyth Bwrsariaeth** hefyd yn seremoni Gwobr Dyngarwch Achates, un ym mhob rhanbarth yn y DU, i sefydliadau sydd eisoes yn gwneud gwaith gwych ac y mae'r Wobr yn bwriadu eu cefnogi i fynd ymhellach fyth. Derbynyddion 2020 yw: Echo Echo Dance Theatre Company, FEAST, Fermynwoods Contemporary Art, Hospitalfield Trust, Islington Mill, MOSTYN, Museum of the Home a People United. Wedi'i lansio gyntaf yn 2019, mae'r Bwrsariaethau yn fenter a arweinir gan Lysgenhadon y Wobr, grŵp o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau. Dros y chwe mis nesaf bydd yr wyth Bwrsariaeth yn derbyn un diwrnod o gefnogaeth bwrsasol i alluogi datblygu eu strategaeth a chodi arian.

Cyn y seremoni, ymunodd mwy na 200 o bobl â **Art, Audiences, Money** - y gynhadledd gyntaf erioed a gynhaliwyd ac a guradwyd gan Sefydliad Dyngarwch Achates. Gan ddod ag arweinwyr meddwl, artistiaid ac arloeswyr o bob rhan o'r sector diwylliannol ynghyd, roedd y gynhadledd yn cynnig eiliad o fyfyrar adeg o newid digynsail, i ystyried pa fath o fyd yr ydym am fyw ynddo a pha le yr ydym am i gelf a diwylliant chwarae ynddo. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd:

Power Dynamics in the Arts, dan gadeiryddiaeth **Libby Penn** (Ymddiriedolwr Sefydliad Dyngarwch), gyda'r panelwyr: **Suzanne Alleyne** (Strategydd Creadigol a Llysgennad Gwobr Dyngarwch Achates) a **Hazel Wotherspoon** (Prif Weithredwr Toonspeak Young People's Theatre).

Rewriting the Rulebook, archwiliad o sut yr amharir ar fodolau a dulliau traddodiadol, dan gadeiryddiaeth **Moira Sinclair** (Prif Weithredwr Sefydliad Paul Hamlyn) gyda'r panelwyr: **Anisa Morridadi** (Sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Beatfrecks), **Abdul Shayek** (Cyfarwyddwr Artistig a Chyd Brif Swyddog Gweithredol Tara Arts) a **Fionnuala Kennedy** (cyfarwyddwr).

Philanthropy as Life Skill, dan gadeiryddiaeth **Lyn Gardner** (adolygydd theatr, nofelydd plant a newyddiadurwr), gyda'r panelwyr: **Dr Alison Body** (Darlithydd Astudiaethau Dyngarol ym Mhrifysgol Caint), **Liz O'Sullivan** (Rheolwr y Celfyddydau yn Ymddiriedolaeth Guy's a St Thomas Sefydliad y GIG) a **Caroline McCormick** (Cadeirydd Sefydliad Dyngarwch Achates).

Pay to Play, trafodaeth ynghylch gwerth ymgysylltu â'r celfyddydau, dan gadeiryddiaeth **Dave Moutrey** (Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr HOME a Chyfarwyddwr Diwylliant Cyngor Dinas Manceinion) gyda'r panelwyr: **Henny Finch** (Cyfarwyddwr Gweithredol Donmar Warehouse), **Tarek Iskander (Cyfarwyddwr Artistig a Phrif Swyddog Gweithredol Battersea Iskander)** (Cyfarwyddwr Artistig a Phrif Swyddog Gweithredol Battersea Arts Centre) a **Javaad Alipoor** (artist ac awdur).

Siaradwr gwadd: The Future of Philanthropy, dan gadeiryddiaeth **Paul Ramsbottom** (Prif Weithredwr Sefydliad Wolfson), gyda'r panelwyr yn cynnwys: **Sufina Ahmad** (Cyfarwyddwr Sefydliad John Ellerman) a **David Hall** (Prif Weithredwr Sefydliad Foyle).

Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.achatesprize.co.uk neu dilynwch ni ar @achatesprize

NODIADAU I OLYGYDDION

Cyswllt y wasg: Jenn Reynolds / jenn@jenniferreynoldspr.co.uk / +44 (0)7736 84 22 37

Mae **Gwobr Dyngarwch Achates** yn brosiect gan Sefydliad Dyngarwch Achates, a gafodd ei greu yn 2016 i gefnogi arloesedd yn y sector diwylliannol ac i gefnogi datblygiad modelau sy'n galluogi gwytnwch sefydliadol. Mae Sefydliad Dyngarwch Achates yn elusen gofrestrdig yn y DU, rhif 1173008.

Cyflwynydd 2020:

Mae'r bardd, cynhyrhydd a libreydd, **Karthika Naïr** yn awdur sawl llyfr gan gynnwys *Until the Lions: Echoes from the Mahabharata*, ac yn brif sgriptiwr sioeau gan gynnwys DESH gan y coreograffydd Akram Khan. Mae cyswllt agosaf Naïr fel galluogwr dawns wedi bod gyda Sidi Larbi Cherkaoui; gyda'i gilydd fe sefydlon nhw ei gwmi Eastman wedi'i leoli yn Antwerp. Ymunodd y bardd, **Marilyn Hacker**, â Karthika ar gyfer seremoni Gwobr 2020 a gyda'i gilydd darllenodd y pâr ddyfyniad o'r gyfres o gerddi renga y maent wedi bod yn ysgrifennu at ei gilydd yn ystod y pandemig. Mae pymtheg llyfr Marilyn Hacker o gerddi'n cynnwys *Blazons* (Carcanet 2019), *A Stranger's Mirror* (Norton, 2015), a *Diaspo/Renga*, a ysgrifenydd gyda Deema K. Shehabi (Holland Park Press, 2014). Un o'i chyfieithiadau diweddar o feirdd Ffrengig a Ffrangeg yw *The Olive Trees' Jazz* gan Samira Negrouche (Pleiades Press, 2020). Mae Marilyn yn byw yn Paris.

Beirniaid 2020:

Javaad Alipoor - Artist, awdur a Chyfarwyddwr Artistig The Javaad Alipoor Company
Deanne Bell - Doctor y GIG yn arbenigo mewn meddyginiaeth yr henoed yn Ymddiriedolaeth Ysbytai Prifysgol Brighton a Sussex

Dr Alison Body - Darlithydd gyda'r Ganolfan Ddyngarol a Chyfarwyddwr Astudiaethau'r MA Astudiaethau Dyngarol ym Mhrifysgol Caint
Tom Byrne - Uwch Reolwr Cynaliadwyedd yn ASOS; ASOS oedd enillydd Gwobr Gorfforaethol 2019 ynghyd â Candoco Dance Company
Alex Cheales - Cyfreithiwr ac Ymddiriedolwr Sefydliad Dyngarwch Achates
Nigel Farnall - Enillydd Gwobr Dyngarwch Achates gyntaf yn 2016; Nigel oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer creu'r Wobr Gorfforaethol y flwyddyn ganlynol
Henny Finch - Cyfarwyddwr Gweithredol Donmar Warehouse
Lyn Gardner - Adolygydd theatr, nofelydd plant a newyddiadurwr
Caroline McCormick - Cyfarwyddwr Sefydliad Dyngarwch Achates
Kane Moore - Cyfarwyddwr Datblygiad Sefydliad Dyngarwch Achates
Dave Moutrey - Cyfarwydder a Phrif Weithredwr HOME a Chyfarwyddwr Diwylliant Cyngor Dinas Manceinion
Michael Nabarro - Prif Swyddog Gweithredol Spektrix
Liv Nilssen - Arweinydd Strategaeth y Sector yn Spektrix
Paul Owens - Cyd-Sylfaenydd a Chyfarwyddwr BOP Consulting
Libby Penn - Arbenigwr digidol yn gweithio ar draws y sector diwylliannol
Sarah Purisa Maguire - Cyfarwyddwr llawrydd yn arbenigo mewn dawnys gyfoes
Paul Ramsbottom - Prif Weithredwr Sefydliad Wolfson a'i chwaer elusen, Ymddiriedolaeth Elusennol Teulu Wolfson
Bill Swainson - Cyhoeddwr ac ymgynghorydd llenyddol
Nick Thomlinson – Enillydd Gwobr Dyngarwch Unigol 2019 ar y cyd â World Heart Beat Music Academy

Partneriaid Gwobr Dyngarwch Achates 2020:

Mae **Achates Philanthropy Ltd** yn cefnogi sefydliadau'r sector diwylliannol i sicrhau gwytnwch gyda gonestrwydd. Mae ein dull o gael ein hysbysu gan y gynulleidfa yn golygu ein bod wedi datblygu i fod yn un o brif gwmnïau strategaeth ac ymgynghori ar godi arian y sector diwylliannol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithredu model moesegol unigryw, sy'n ein galluogi i weithio gyda sefydliadau diwylliannol o bob maint. Mae Achates yn dod â thîm o godwyr arian a rheolwyr celfyddydol hynod brofiadol ynghyd i gynnig dull wedi'i deilwra o gysylltu â chynulleidfaoedd - gan helpu sefydliadau i gyrraedd sefyllfa hirdymor, gydnerth ac i gynyddu effaith eu gwaith i'r eithaf. Mae ein hethos yn seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth a dyna sut y penderfynom ar ein henw. Yn Aeneid Virgil, roedd Achates yn ffrind agos ac yn gynghorydd ffyddlon arweinydd Trojan, Aeneas. Roeddem yn credu bod hyn yn disgrifio'r union berthynas a gynigiwn i'n cleientiaid.

HOME yw canolfan diwylliant cyfoes rhyngwladol Manceinion. Mae HOME yn gweithio gydag artistiaid rhyngwladol a'r DU i gynhyrchu profiadau anghyffredin, gan greu cymysgedd gyffrous o ddrama, dawnys, ffilm, celf weledol gyfoes a digwyddiadau sy'n canolbwyntio'n gryf ar waith rhyngwladol, comisiynau newydd a datblygu artistiaid. Mae HOME yn elusen gofrestredig ac yn Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor y Celfyddydau.

Noddir Gwobr Dyngarwch Achates 2020 gan Achates Philanthropy Ltd. wedi'i chefnogi gan Sefydliad Paul Hamlyn ac Young Arts Fundraisers, ac wedi'i chyflwyno mewn partneriaeth â BOP Consulting, Spektrix a HOME, Manceinion

